

Rhif: WAG10-11651



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Strategaeth ar gyfer y Gymraeg: datganiad ar y camau nesaf



F8021011

ISBN 978 0 7504 6163 4

© Hawlfraint y Goron 2011

Strategaeth ar gyfer y Gymraeg: datganiad ar y camau nesaf

Cyflwyniad

Yn sgil yr ymgynghoriad ar y strategaeth ddrafft *laith Fyw: laith Byw*, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn croesawu'r cyfle i gadarnhau'r weledigaeth a'r amcanion a nodwyd yn y strategaeth. Yn unol â hynny felly, mae'r datganiad hwn gan y Llywodraeth yn sôn am y camau penodol i'w cymryd yn y flwyddyn i ddod.

Yn ôl yr ymatebion a gafwyd, mae'n amlwg hefyd fod angen ystyried rhai materion ymhellach. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio â'i phartneriaid er mwyn datblygu cynllun gweithredu cynhwysfawr i fwrw ymlaen â hyn.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn pennu bod gofyn i Weinidogion Cymru gyhoeddi cynllun gweithredu blynyddol yn amlinellu sut y byddant yn gweithredu'r strategaeth ar gyfer y Gymraeg.

Aethom ati i ymgynghori ynghylch *laith Fyw: laith Byw*, sef strategaeth ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y Gymraeg rhwng 13 Rhagfyr 2010 a 4 Chwefror 2011. Cafwyd ymatebion calonogol iawn oddi wrth oddeutu 130 o sefydliadau ac unigolion. Hoffem ddiolch i bawb a ymatebodd.

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan:

<http://cymru.gov.uk/consultations/welshlanguage/wlsconsultation>

Yn ôl yr ymatebion a gafwyd, mae'n amlwg bod cefnogaeth eang i'r strategaeth a bod sefydliadau ac unigolion amrywiol yn parhau'n ymrwymedig iawn i barhau â'r gwaith o hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Mynegwyd cryn gefnogaeth i'r bwriad i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ac i'r bwriad o adeiladu ar gynllun gweithredu cenedlaethol presennol y Llywodraeth ar gyfer creu Cymru ddwyieithog, sef *laith Pawb*, er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg. Croesawyd yn ogystal y ffaith bod Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod cryfderau'r iaith a hefyd yn derbyn bod sefyllfa fregus yr iaith o fewn cynifer o gymunedau Cymraeg yn gallu tanseilio'r cryfderau hyn.

Mae'r Llywodraeth yn falch o weld bod y rhan fwyaf o'r ymatebion yn adlewyrchu uchelgais, cefnogaeth a brwdfrydedd cynifer o sefydliadau ac unigolion ynghylch yr iaith. Mae'n sicr yn sylfaen gref ar gyfer y dyfodol. Mae angen mynd ati yn awr i ddefnyddio'r ymrwymiad a'r arbenigedd yma. Ni all y Llywodraeth fynd ati i gryfhau sefyllfa'r iaith yn ein cymunedau heb gymorth gan eraill. Mae'n rheidrwydd ar y Llywodraeth i roi arweiniad a'i gwneud yn haws i gyflwyno newidiadau ond byddwn yn dibynnu bob amser ar gymorth a brwdfrydedd pobl eraill er mwyn ceisio cyrraedd yr unigolion a'r cymunedau y bydd dyfodol yr iaith yn dibynnu arnynt.

Hoffem i bartneriaethau o'r fath fod yn nodweddiadol o'n holl ymdrechion i hybu'r iaith. Rydym yn awyddus i ddatblygu a chryfhau'r rhwydweithiau a sefydlwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Hoffem hefyd i'r partneriaethau hyn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o weithredu'r camau a amlinellir yn y strategaeth.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i gydweithio â chymaint â phosibl o sefydliadau amrywiol, gan ddatblygu'r partneriaethau hynny sy'n cefnogi'r iaith. Daeth Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gyfraith ym mis Chwefror. Golyga hyn y caiff Cyngor Partneriaeth statudol ar gyfer y Gymraeg ei greu. Caiff y Cyngor Partneriaeth ei sefydlu maes o law wrth i'r Mesur gael ei weithredu. Yn y cyfamser, mae'r Llywodraeth wedi cynnull rhanddeiliaid o sefydliadau amrywiol iawn er mwyn sefydlu Gr p Cynghori. Bydd y gr p hwn yn gyfrifol am roi'r strategaeth ar waith a pharatoi cynllun gweithredu ar gyfer ei chyflawni.

Cyhoeddwyd yn ddiweddar strwythurau newydd ar gyfer cyflawni'r strategaeth yn y dyfodol. O dan y trefniadau hyn bydd gan Lywodraeth y Cynulliad ragor o gyfrifoldebau yngl n â'r iaith. Ar ôl i Fwrdd yr Iaith Gymraeg gael ei ddiddymu caiff ei weithgareddau eu rhannu rhwng swyddfa Comisiynydd y Gymraeg (a fydd yn cynnwys gwaith ar safonau'r Gymraeg a'u gorfodi) ac Uned y Gymraeg o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru (a fydd yn cynnwys cyfrifoldeb am ddyfarnu grantiau a chynorthwyo prosiectau). Bydd yr Uned ar ei newydd wedd yn fwy cynhwysfawr a bydd yn canolbwyntio ar gyflawni. Bydd y trefniadau hyn yn sicrhau gwell perthynas a pherthynas fwy uniongyrchol rhwng y Llywodraeth a'r partneriaid eraill a fydd yn gyd-gyfrifol am gyflawni'r strategaeth.

Y Llywodraeth felly fydd yn ymgymryd â rôl Bwrdd yr Iaith Gymraeg fel prif gorff Cymru ar gyfer cynllunio ieithyddol. Byddwn yn sicrhau y bydd gwaith arloesol y Bwrdd ar gyfer hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn parhau.

Y Ffordd Ymlaen

Mynegwyd cryn gefnogaeth i nodau'r strategaeth. Mae'n rhaid i ni fynd ati yn awr i ddatblygu ffrydiau gwaith a'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod ein geiriau'n arwain at gamau gweithredu – mae'n glir fod llawer o'r rhai a ymatebodd i'n hymgyngoriad yn awyddus i gyfrannu at y broses honno. Teimlwn ei bod yn bwysig eu bod yn gwneud hynny. Mae'r ymatebwyr wedi cyflwyno pob math o safbwyntiau a syniadau arloesol ac mae angen i ni bwysu a mesur y rhain wrth i ni roi'r strategaeth ar waith.

Bydd angen i ni barhau i gydweithio'n agos â phartneriaid wrth i ni gwblhau'n derfynol y strategaeth a'r cynllun gweithredu cysylltiedig. Byddwn hefyd yn cydweithio â hwy wrth ddatblygu targedau a chanlyniadau ar gyfer y strategaeth fel y gallwn fonitro'n briodol hynt y gwaith o'i chyflawni.

Bydd gwneud y gwaith hollbwysig hwn mewn cyfnod o wasgfa ar arian cyhoeddus yn gryn her. Wrth roi'r strategaeth hon ar waith a pharatoi cynllun gweithredu bydd angen i ni sicrhau y gallwn werthuso'n briodol effaith ein buddsoddiad yn yr iaith. Serch hynny, mae sefyllfa fregus yr iaith o fewn

llawer o gymunedau Cymraeg yn golygu na allwn roi'r gwaith o hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg o'r neilltu hyd nes y bydd y sefyllfa ariannol yn gwella.

Bydd Mesur y Gymraeg yn elfen allweddol i'n cynorthwyo i gyflawni nodau'r strategaeth. Bydd hefyd yn sicrhau y gallwn rannu'r cyfrifoldeb am hybu'r defnydd o'r Gymraeg gydag eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol Cymru. Mae darpariaethau'r Mesur eisoes wedi dechrau cael eu gweithredu a'r flaenoriaeth gyntaf fydd penodi Comisiynydd y Gymraeg cyn gynted â phosibl. Po gynharaf y gall y Comisiynydd ddechrau datblygu safonau yn ymwneud â'r Gymraeg, y cynharaf y gwelwn well eglurder a chysondeb ar gyfer siaradwyr Cymraeg o ran lefel y gwasanaeth y gallant ddisgwyl ei dderbyn oddi wrth sefydliadau amrywiol. Bydd y fframwaith deddfwriaethol a sefydlwyd gan y Mesur yn atgyfnerthu'r cynlluniau polisi sydd o fewn ein strategaeth ar gyfer y Gymraeg.

Byddwn yn sicrhau bod cysylltiadau effeithiol yn cael eu meithrin rhwng y strategaeth a Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg y Llywodraeth, a hefyd rhwng y strategaeth a gwaith arall sy'n berthnasol ym marn yr ymatebwyr. Bydd angen i'r strategaeth gael ei gweithredu ar y cyd â gweithgareddau eraill er mwyn osgoi dyblygu ac er mwyn sicrhau ei bod yn ysgogi'r newidiadau yr ydym wedi ymrwymo iddynt.

Datblygu Cynllun Gweithredu

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch y strategaeth ddrafft wedi cadarnhau bod cefnogaeth i sawl agwedd ar y strategaeth. Eto i gyd, mae'n amlwg fod angen ystyried eto sut i gynllunio a chyflawni cynigion y strategaeth.

Amlinella'r adran hon sut y byddwn yn symud ymlaen wrth ymateb i'r prif themâu sy'n deillio o'r ymgynghoriad. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud er mwyn ystyried y sylwadau mwy manwl a phenodol drwy'r camau gweithredu hyn a thrwy waith i ddatblygu ein cynllun gweithredu cyntaf.

Rydym yn falch fod yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol â'r **wledigaeth** o weld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hefyd yn cytuno â'n hawydd i weld:

cynnydd yn nifer y bobl sy'n gallu siarad yr iaith ac sy'n ei defnyddio;
rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ynghyd â chynlluniau sy'n ceisio cynyddu hyder pobl a'u rhuglder yn yr iaith;
mwy o ymwybyddiaeth ymhlith pobl o werth y Gymraeg, fel rhan o'n treftadaeth genedlaethol a hefyd fel sgîl bwysig yn yr oes fodern; a
chynlluniau cyfeiriedig ar draws Cymru er mwyn cryfhau'r Gymraeg o fewn cymunedau.

Rydym yn fodlon bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r **nodau** a ddisgrifir yn y ddogfen ymgynghori. Y nodau yw:

cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y **gymuned**;

annog a chefnogi'r broses o **drosglwyddo'r iaith** o fewn teuluoedd;

cynyddu'r ddarpariaeth o ran gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer **plant a phobl ifanc** a hybu gwerth y Gymraeg yn eu mysg;

gwella **gwasanaethau Cymraeg ar gyfer dinasyddion**;

creu rhagor o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r **Gymraeg yn y gweithle**; a chryfhau **seilwaith** yr iaith.

Wrth i ni ddatblygu ein cynllun gweithredu ar gyfer cyflawni'r nodau strategol hyn byddwn yn trafod pob un ohonynt â'n partneriaid. Byddwn hefyd yn eu trafod drwy'r Grŵp Cyngori a sefydlwyd yn ddiweddar ynghylch Strategaeth y Gymraeg. Bydd y broses hon yn cynnig cyfle i ystyried awgrymiadau ychwanegol sydd wedi codi yn ystod y broses ymgynghori. Wrth fwrw ymlaen â'r strategaeth a'r cynllun gweithredu hoffem sicrhau ein bod yn parhau i ysgogi trafodaeth agored ac adeiladol â'n partneriaid. Maes o law bydd y Cyngor Partneriaeth yn dwyn ynghyd randdeiliaid amrywiol er mwyn ein cynghori ynghylch datblygu a monitro cynllun gweithredu blynyddol. Byddwn hefyd yn sicrhau bod dadl yn cael ei chynnal yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch y cynllun gweithredu.

Mae gweddill y ddogfen hon yn amlinellu sut rydym yn cynnig ymateb i rai o'r materion allweddol a drafodwyd fel rhan o'n hymgyngoriad.

Materion i'w hystyried ymhellach

Nod Strategol 1: Y Gymraeg o fewn y gymuned

Cefnogir yn gyffredinol y cynnig i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn cymunedau ar draws Cymru, gan gynnwys drwy ddatblygu **Ardaloedd Hybu'r Gymraeg, Trefi a Dinasoedd Dwyieithog a Chanolfannau Adnoddau Iaith**.

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn falch o weld cydnabod bod angen datblygu mentrau cynllunio ieithyddol bwriedig a dwys er mwyn ceisio gwrthdroi'r newid ieithyddol mewn ardaloedd lle y mae'r Gymraeg yn brif gyfrwng bywyd bob dydd, neu lle'r oedd felly tan yn gymharol ddiweddar, ond lle mae bellach dan fygythiad.

Wrth i ni ddatblygu Ardaloedd Hybu'r Gymraeg a Threfi a Dinasoedd Dwyieithog mae angen i ni gofio'r angen i hybu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob rhan o Gymru. Rhaid i ni hefyd sicrhau nad yw adnoddau'n cael eu tynnu oddi ar ardaloedd lle y mae nifer y bobl a all siarad Cymraeg yn cynyddu, yn bennaf yn sgil twf addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae'r ymatebion hefyd yn awgrymu pwysigrwydd sicrhau bod nodau a chwmpas Ardaloedd Hybu'r Gymraeg, Trefi a Dinasoedd Dwyieithog a Chanolfannau Adnoddau Iaith, ynghyd â rolau, cyfrifoldebau a chyllid, yn gwbl

glir. Roedd yr ymatebwyr yn awyddus i sicrhau bod y cynlluniau hyn yn ymdrin yn effeithiol â'r gwahanol ffactorau economaidd-gymdeithasol sy'n dylanwadu ar y defnydd o'r Gymraeg. Roeddent hefyd am osgoi unrhyw ddyblygu ar ymdrechion gwahanol asiantiaid a sicrhau y gwneir y defnydd gorau o adnoddau.

Rydym yn cytuno â'r sylwadau hyn ac yn cydnabod bod angen mynd ati i ddatblygu'r syniadau hyn. Yn y cyfamser, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi datblygu prosiect a fydd yn arwain at lansio Ardal Hybu'r Gymraeg yn ardal Aman Tawe. Bydd y prosiect hwn yn astudiaeth beilot ar gyfer ardaloedd eraill.

Yn ogystal, bydd yn bwysig o hyd i ni gefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan y mentrau iaith, yr Urdd a sefydliadau eraill sy'n ceisio hybu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn cymunedau ar draws Cymru.

Byddwn yn parhau i gefnogi gweithgareddau sy'n mynd rhagddynt er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn cymunedau ar draws Cymru. Eto i gyd, bydd angen i ni gydweithio â'n partneriaid, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg, er mwyn sicrhau rhagor o bwyslais ar y gwaith hwn, a hefyd er mwyn hybu ardaloedd sydd o bwysigrwydd ieithyddol arbennig.

Pwyntiau gweithredu allweddol:

Bwrdd yr Iaith Gymraeg i sefydlu Ardal Hybu'r Gymraeg ar ffurf cynllun peilot yn Aman Tawe erbyn mis Ebrill 2011 a chyflwyno argymhellion erbyn mis Rhagfyr 2011 ynghylch sefydlu rhagor o Ardaloedd Hybu'r Gymraeg.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg i bwysu a mesur syniadau ynghylch datblygu Trefi a Dinasoedd Dwyieithog yn ystod 2011.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg i gynnal ymarfer mapio erbyn mis Medi 2011 o leoliadau presennol sefydliadau sy'n cyfrannu at hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd y dystiolaeth yn sail ar gyfer creu canolfannau adnoddau iaith – a chyflwyno argymhellion ynghylch eu sefydlu.

Trwy grantiau a dulliau eraill parhau i gefnogi gwaith y mentrau iaith, yr Urdd a sefydliadau eraill sy'n ceisio hybu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn cymunedau ar draws Cymru. Caiff grantiau ar gyfer 2011/12 eu gweinyddu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Y Llywodraeth fydd yn gweinyddu'r grantiau ar gyfer 2012/13 a thu hwnt.

Parhau i alluogi sefydliadau sy'n ceisio hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau ar draws Cymru i weithio mewn partneriaeth. Caiff y gwaith hwn ei hwyluso gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn ystod 2011/12 a chan y Llywodraeth ar ôl hynny.

Maes o law, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gallu gosod safonau ar sefydliadau amrywiol, gan gynnwys safonau hybu ar gyfer awdurdodau lleol, gan geisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn cymunedau.

Nod Strategol 2: Trosglwyddo'r iaith a chefnogi teuluoedd

Cydnabuwyd pwysigrwydd allweddol trosglwyddo'r iaith o genhedlaeth i genhedlaeth. Cydnabuwyd yn ogystal fod y maes hwn yn un cymhleth a heriol. Cafwyd sylwadau ynghylch materion amrywiol megis a yw'r ystod oedran 0-5 oed yn briodol o ystyried y ffaith bod asiantaethau eraill yn gweithio gyda gwahanol ystodau oedran. Cafwyd llawer o sylwadau ynghylch yr angen i adlewyrchu'n ddigonol yr amryw ddylanwadau ar y defnydd a wneir o'r Gymraeg o fewn teuluoedd, sef y teulu estynedig, sut y caiff iaith ei throsglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth a gofal plant.

Croesawyd yn gyffredinol gynnig y strategaeth ddrafft i ddatblygu camau gweithredu cydgysylltiedig yn y maes hwn. Roedd hyn yn cynnwys datblygu **Cynllun Cyflawni'r Gymraeg ar gyfer y blynyddoedd cynnar**, a fyddai'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr o'r sectorau iechyd ac addysg, Mudiad Ysgolion Meithrin, darparwyr Cymraeg i Oedolion, S4C, y mentrau iaith ac eraill. Mae'r materion i'w hystyried yn cynnwys datblygu gwaith Twf, darparu gofal plant cyfrwng Cymraeg a chymorth ar gyfer teuluoedd o ran Cymraeg i Oedolion.

Yn ddiamau mae'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod yr iaith yn parhau'n iaith fyw. O'r herwydd bydd hi'n bwysig parhau i annog teuluoedd i siarad Cymraeg a'u cynorthwyo i wneud hynny, ac yn arbennig gyda'u plant – a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol wrth i ni wneud hynny.

Pwynt gweithredu allweddol:

Erbyn mis Mehefin 2011 sefydlu grŵp llywio ynghylch Cynllun Cyflawni'r Gymraeg ar gyfer y blynyddoedd cynnar, er mwyn ystyried:

- y ddarpariaeth ar gyfer gofal plant cyfrwng Cymraeg
- datblygu gwaith Twf ynghyd â phrosiectau eraill sy'n annog pobl i drosglwyddo'r iaith
- codi ymwybyddiaeth o fanteision trosglwyddo'r iaith o fewn y proffesiwn gofal iechyd a phroffesiynau eraill cysylltiedig
- y ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg i oedolion ar gyfer rhieni.

Nod Strategol 3: Plant a phobl ifanc

Cytunai'r ymatebwyr â'r angen i ehangu ystod y cyfleoedd cymdeithasol a'r cyfleoedd eraill lle y gall plant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg. Cytunwyd

yn ogystal fod angen gwneud rhagor i godi ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o werth y Gymraeg.

Crybwyllodd y strategaeth ddrafft bosibilrwydd **codi ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg** drwy ehangu rhaglen o sesiynau ymwybyddiaeth iaith a gyflwynir i ddisgyblion ysgol gan weithwyr ieuenctid. Er bod yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig yn gyffredinol codwyd cwestiynau ynghylch ariannu'r sesiynau hyn, y capasiti ar eu cyfer a'r arbenigedd oedd ei angen ar gyfer ymgymryd â hwy. Rhybuddiwyd yn ogystal na ddylid diystyru rôl athrawon a'r cwricwlwm yn hyn o beth. Awgrymwyd y gallai ehangu'r ddarpariaeth o weithgareddau cymdeithasol a hamdden safonol drwy gyfrwng y Gymraeg ac annog rhagor o bobl ifanc i gymryd rhan ynddynt fod yn ffordd fwy effeithiol o godi ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg na chynnal sesiynau ymwybyddiaeth.

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn awyddus i weld rhagor o arian yn cael ei fuddsoddi mewn **darparu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc** yn y gymuned, a gweithgareddau chwaraeon yn arbennig. Teimlai rhai o'r ymatebwyr fod angen i awdurdodau lleol wella eu darpariaeth yn hyn o beth. Roedd gwahaniaeth barn o ran addasrwydd y grŵp oedran 9-13 oed fel ystod oedran addas i'w dargedu fel rhan o 'gynllun o weithgareddau â brand penodol' ac yn wir a fyddai cynllun o'r fath yn arwain at fanteision gwirioneddol o ran eu hannog i gymryd rhan.

Mynegwyd cryn gefnogaeth i'r cynnig **y dylid holi pobl ifanc** ynghylch pa weithgareddau cyfrwng Cymraeg fyddai'n apelio atynt. Eto i gyd, nododd rhai ymatebwyr fod gwaith eisoes yn cael ei gyflawni yn y maes hwn. Rydym yn awyddus i osgoi unrhyw ddyblygu ar ymdrechion pobl wrth i ni symud ymlaen.

Teimlai rhai o'r ymatebwyr fod angen i'n strategaeth roi sylw i **grwpiau oedran eraill**, gan gynnwys pobl hŷn (a all, er enghraifft, ddylanwadu ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd a chwarae rhan bwysig o ran trefnu gweithgareddau cymunedol a chymryd rhan ynddynt). Byddwn yn cofio hyn wrth i ni fwrw ymlaen â'n strategaeth.

Mae annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg yn agwedd allweddol ar y strategaeth. Mae'n rhaid i'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig apelio atynt – ac mae'n rhaid mynd ati i sicrhau bod ganddynt agwedd bositif tuag at yr iaith a'u bod yn teimlo ei bod yn berthnasol i'w bywydau.

Pwyntiau gweithredu allweddol:

Bwrdd yr Iaith Gymraeg i asesu erbyn mis Rhagfyr 2011 pa mor effeithiol yw prosiectau cyfredol sy'n ceisio cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o weithgareddau cyfrwng Cymraeg a'u hannog i gymryd rhan ynddynt. Disgwylir iddynt hefyd gyflwyno argymhellion.

Erbyn mis Gorffennaf 2011 gwahodd Urdd Gobaith Cymru, gan ymgynghori â chyrff eraill, i gynghori'r Llywodraeth ynghylch anghenion a dyheadau pobl ifanc o safbwynt gweithgareddau cyfrwng Cymraeg.

Datblygu prosiect Bwrdd yr Iaith Gymraeg sef *Cefnogi arferion pobl ifanc mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol* ar draws Cymru.

Parhau i gefnogi, drwy grantiau a dulliau eraill, waith y mentrau iaith, yr Urdd a sefydliadau eraill sy'n ceisio annog pobl ifanc ar draws Cymru i ddefnyddio'r Gymraeg. Caiff grantiau ar gyfer 2011/12 eu gweinyddu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Caiff grantiau ar gyfer 2012/13 a blynyddoedd dilynol eu gweinyddu gan y Llywodraeth. Bydd effeithiolrwydd y sefydliadau hynny yn cael ei asesu, fel yr amlinellir uchod.

Maes o law bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gallu gosod safonau ar gyfer sefydliadau amrywiol, gan gynnwys safonau hybu ar gyfer awdurdodau lleol, er mwyn ceisio cynyddu defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg.

Sicrhau llais i blant a phobl ifanc ar Gyngor Partneriaeth y Gymraeg.

Nod Strategol 4: Darparu gwasanaethau ar gyfer dinasyddion

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn croesawu'r ffaith bod Mesur y Gymraeg wedi'i gymeradwyo ac yn cefnogi'r bwriad i sefydlu Comisiynydd y Gymraeg a'r fframwaith rheoleiddio newydd, yn seiliedig ar safonau, er mwyn ceisio gwella'r gwasanaethau Gymraeg a ddarperir ar gyfer dinasyddion.

Croesawyd bwriad y Llywodraeth i baratoi **fframwaith strategol er mwyn gwella gwasanaethau iechyd a chymdeithasol dwyieithog**, ynghyd â'r ffaith ein bod wedi ailddatgan ein hymrwymiad i **brif ffrydio'r Gymraeg** yn ein cynlluniau polisi strategol.

Cytunwn â'r farn nad yw prif ffrydio yn ddigonol ynddo'i hun a bod angen i bob maes polisi gyfrannu at nodau'r strategaeth. I'r perwyl hwn, teimlai llawer o'r ymatebwyr fod y ffaith y bydd y Mesur yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol drwy'r fframwaith safonau i **hybu'r Gymraeg yn fwy eang** yn gam pwysig ymlaen.

Cafodd pwysigrwydd **rôl y llywodraeth**, yn genedlaethol ac yn lleol, o ran materion fel datblygu economaidd, adfywio cymunedol, tai a chynllunio ei bwysleisio gan lawer o'r ymatebwyr. Teimlent ei bod yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod cymunedau Gymraeg eu hiaith yn gynaliadwy. Croesawyd y ffaith y byddai'r Grŵp Trafod Iaith-Economi ynghyd â'r ymrwymiad i ddiwygio Nodyn Cyngor Technegol 20 (Cynllunio a'r Iaith Gymraeg) yn parhau i dderbyn cymorth.

O ran **hybu'r Gymraeg yn y sector preifat a'r trydydd sector**, teimlai rhai o'r ymatebwyr y dylai fod gofyn i'r sectorau hyn gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol tra teimlai pobl eraill fod angen buddsoddi rhagor o arian er mwyn cynorthwyo busnesau a sefydliadau'r trydydd sector i ddefnyddio rhagor ar y Gymraeg. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn bryderus y gallai'r gofynion ar sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau dan contract i'r sector

cyhoeddus fod yn afresymol. Cytunwyd â'r cynnig i ddatblygu **cynllun nod siarter** ar gyfer sefydliadau'r sector preifat, ond roedd gan rai ymatebwyr amheuon ynghylch llwyddiant dull gweithredu cwbl wirfoddol. Yn ddiamau bydd angen i gynllun o'r fath gynnwys system fonitro effeithiol.

Mae angen sicrhau ei bod yn haws cael gafael ar wasanaethau Cymraeg sydd o safon dderbyniol os ydych yn ymwneud â'r sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r trydydd sector.

Pwyntiau gweithredu allweddol:

Llywodraeth Cynulliad Cymru i brif ffrydio ymhellach y Gymraeg ym maes datblygu polisïau'r Llywodraeth a darparu gwasanaethau.

Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnwys amodau o ran y defnydd o'r Gymraeg, fel y bo'n briodol, wrth ddyfarnu grantiau a chontractau.

Holl Gyfarwyddwyr Cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru i wneud trefniadau er mwyn sicrhau bod yr holl agweddau ar Gynllun yr Iaith Gymraeg yn cael eu gweithredu o fewn eu Cyfarwyddiaethau.

Holl Gyfarwyddiaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru i adrodd yn flynyddol ar yr hyn y maent wedi'i gyflawni o ran y strategaeth a sut y maent wedi cydymffurfio â chynllun iaith Gymraeg y Llywodraeth.

Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu hyfforddiant ar gyfer ei holl staff ynghylch ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

Llywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu ac aildosbarthu Nodyn Cyngor Technegol 20, gan gyhoeddi ymgynghoriad yn ei gylch ym mis Mawrth 2011.

Llywodraeth Cynulliad Cymru i barhau i gefnogi gwaith y Grŵp Iaith-Economi.

Llywodraeth Cynulliad Cymru i sefydlu swyddfa Comisiynydd y Gymraeg erbyn mis Ebrill 2012.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg i gynnal adolygiad o gynnwys cynlluniau iaith Gymraeg cyfredol erbyn mis Mawrth 2012 er mwyn darparu gwybodaeth sylfaenol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg unwaith y caiff ei benodi, er mwyn iddo ef/hi allu cychwyn y broses o ddatblygu safonau o dan y Mesur.

Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno safonau ynghylch y Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Yn dilyn hynny, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gallu gosod safonau yn ymwneud â'r Gymraeg ar gyfer sefydliadau amrywiol.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi fframwaith strategol er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg o fewn gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Caiff ymgynghoriad ei gynnal ynghylch y fframwaith hwn yn hydref 2011 a chaiff ei weithredu o fis Ebrill 2012 ymlaen.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg i asesu effeithiolrwydd polisiâu Gymraeg gwirfoddol ar gyfer y sector preifat, a chyflwyno argymhellion ynghylch cynllun nod siarter erbyn mis Rhagfyr 2011.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ac yna Comisiynydd y Gymraeg, i gynnig arweiniad a chefnogaeth ar gyfer cyrff y sector preifat a'r trydydd sector ynghylch y defnydd o'r Gymraeg.

Sicrhau arweiniad clir ar gyfer gwella gallu'r trydydd sector i gynnig gwasanaethau Cymraeg drwy, ymhlith pethau eraill,

- Barhau i gefnogi gwaith *Estyn Llaw*
- Sicrhau bod yr ymrwymadau a wnaed yng nghompart y trydydd sector yn cael eu cyflawni

Sefydlu Cyngor Partneriaeth y Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 erbyn mis Ebrill 2012.

Sicrhau llais i sefydliadau'r sector cyhoeddus a preifat a'r trydydd sector ar Gyngor Partneriaeth y Gymraeg.

Nod Strategol 5: Y Gymraeg yn y gweithle

Cafodd ein nod o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ei groesawu gan lawer o'r ymatebwyr. Eto i gyd, mae'n amlwg eu bod yn cytuno â'r farn y bydd yn dasg heriol.

Mae'n galonogol clywed bod llawer o sefydliadau eisoes yn cynnal gwahanol weithgareddau arloesol er mwyn creu cyfle i'w staff weld gwerth dysgu, gwella a defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle. Un o'r syniadau mwyaf diddorol a gyflwynwyd oedd gwneud sefydliadau sydd eisoes yn cyflawni llawer o'u gwaith, y rhan fwyaf o'u gwaith neu'r cyfan ohono yn y Gymraeg yn **ganolfannau rhagoriaeth**. Byddai'r rhain yn mentora cyrff eraill sy'n awyddus i ddefnyddio rhagor ar y Gymraeg.

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn awyddus i weld **cyrsgiau Cymraeg i Oedolion wedi'u teilwra** yn cael eu datblygu ar gyfer gwahanol fathau o weithleoedd. Er y dylid croesawu'r awydd hwn mae angen ystyried hefyd bwysigrwydd sicrhau cysondeb ar draws gwahanol weithleoedd a manteisio ar gyfleoedd i sicrhau arbedion maint.

Cytunai llawer o'r ymatebwyr fod gan y Llywodraeth rôl bwysig i'w chwarae wrth arwain yn y maes hwn a chroesawyd yr ymrwymiad i weithredu erbyn 2016 **gynlluniau gweithredu'r Gymraeg yn y gweithle ar draws ein holl swyddfeydd**. Byddai'r cynlluniau hyn yn seiliedig ar arferion gorau a ddatblygwyd yn ein swyddfeydd yn Llandudno ac Aberystwyth. Teimlai rhai o'r ymatebwyr fod angen i'r Llywodraeth fynegi'r ymrwymiad hwn yn fwy clir ac roedd eraill yn awyddus i'r cynlluniau gael eu cyflwyno'n gynharach.

Cafodd rôl y Comisiynydd ynghyd â'r **fframwaith safonau gweithredol** o dan Fesur y Gymraeg ynghylch hybu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ei groesawu yn ogystal gan rai ymatebwyr.

Bydd sicrhau bod y Gymraeg yn fwy perthnasol yn y gweithle yn hollbwysig ar gyfer cadarnhau ei statws a'i gwerth. O'r herwydd rydym yn benderfynol o ddatblygu'r agwedd hon ar y strategaeth mewn partneriaeth ag eraill.

Pwyntiau gweithredu allweddol:

Sefydlu Gweithgor Rhanddeiliaid y Gymraeg yn y Gweithle erbyn mis Mehefin 2011, er mwyn cyflwyno argymhellion cychwynnol erbyn mis Mawrth 2012 ynghylch:

- Cymraeg i oedolion
- Hybu cydnabyddiaeth o'r Gymraeg fel sgil
- Arweiniad ar gyfer darparwyr hyfforddiant.

Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno cynlluniau gweithredu'r Gymraeg yn y gweithle yn ei holl swyddfeydd, ar sail yr arferion gorau a ddatblygwyd yn ei swyddfeydd yng Nghyffordd Llandudno ac Aberystwyth.

Cyhoeddi cynllun iaith Gymraeg diwygiedig Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Mawrth 2011.

Maes o law bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gallu gosod safonau gweithredol ar gyfer sefydliadau amrywiol iawn.

Nod Strategol 6: Cryfhau'r seilwaith

Cytunai llawer o'r ymatebwyr â'n nod o sicrhau bod seilwaith yr iaith yn cael ei gryfhau a chafwyd nifer o awgrymiadau ynghylch gweithgareddau a darpariaethau yr hoffent iddynt gael eu gwella neu eu hehangu.

Mae'r angen i'r iaith gael ei gweld a'i chlywed mewn lleoliadau prif ffrwd a chyfoes yn gwbl amlwg. Mae hyn yn cynnwys sicrhau nad yw'r iaith yn syrthio ar ei hôl hi o ran y tueddiadau diweddaraf fel **y cyfryngau cymdeithasol, e-lyfrau a darlledu**, ynghyd â datblygu cyfryngau mwy traddodiadol fel **llyfrau wedi'u hargraffu**.

Derbyniwyd sylwadau amrywiol iawn ynghylch cyfieithu. Cafwyd dadleuon cryf o blaid ac yn erbyn cynigion y strategaeth ddrafft i ddatblygu **system reoleiddio ac achredu newydd ar gyfer y diwydiant cyfieithu**.

Gwrthwynebwyd yn ogystal yr awgrym y dylid mynd ati i weld a fyddai'n briodol, neu'n bosibl, i aelodau Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru gynnis gwasanaethau pro bono i grwpiau cymunedol.

Darparwyd sylwadau yn ogystal a awgrymodd feysydd i'w datblygu ymhellach o ran **technoleg a'r iaith Gymraeg**. Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau y gall yr iaith gael ei defnyddio mewn cymaint â phosibl o wahanol gyd-destunau.

Roedd awydd hefyd i gydnabod rôl y **proffesiwn cynllunio ieithyddol**. Mae gan lawer o bobl ar draws sectorau amrywiol rôl bwysig o safbwynt cyflawni nodau'r strategaeth. Mae angen sicrhau bod y proffesiwn yn cael ei ddatblygu a'i feithrin drwy ddatblygu adnoddau hyfforddi, cymwysterau a chyfleoedd er mwyn rhannu arferion gorau.

Pwyntiau gweithredu allweddol:

Bwrdd yr Iaith Gymraeg i sefydlu corff erbyn mis Mawrth 2012 i gydlynu gweithgareddau ym maes safoni terminoleg ac enwau lleoedd yn y Gymraeg.

Ystyried ar y cyd â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru ac eraill bosibilrwydd sicrhau ansawdd cyfieithwyr sy'n cynnis gwasanaeth cyfieithu Gymraeg/Saesneg.

Parhau i roi cefnogaeth, ar ffurf grant, i Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

Ystyried sefydlu prosiect peilot mewn partneriaeth â sefydliadau amrywiol er mwyn datblygu cynlluniau cyfieithu cymunedol, gan ddatblygu'r arferion da sydd eisoes ar waith.

Cefnogi datblygiad darlledu cyfrwng Gymraeg, ac ystyried posibilrwydd cynyddu'r rhaglenni Gymraeg ar orsafoedd radio masnachol.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ddatblygu cynllun gweithredu ynghylch iaith a thechnoleg erbyn mis Mawrth 2012.

Cyngor Llyfrau Cymru i ymgymryd ag ymchwil erbyn mis Mawrth 2012 ynghylch y llyfrau Gymraeg sy'n cael eu darllen a'u prynu.

Cyngor Llyfrau Cymru i archwilio potensial llyfrau electronig.

Llywodraeth Cynulliad Cymru i barhau i gefnogi'r diwydiant cyhoeddi Gymraeg, mewn partneriaeth â Chyngor Llyfrau Cymru ac eraill.

Y camau nesaf

Byddwn yn datblygu ein cynigion ar gyfer rhoi ar waith y materion a drafodir yn ein dogfen ymgynghori. Gwnawn hyn drwy gysylltu â'n partneriaid ac ystyried y sylwadau yr ydym wedi'u derbyn. Rydym yn bwriadu rhoi'r strategaeth hon ar waith a datblygu cynllun gweithredu drwy ymgynghori â'r Grŵp Cynghori. Dogfen fyw fydd y cynllun gweithredu sy'n golygu y bydd yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd ac y bydd adroddiadau rheolaidd arno. Bydd yn cyd-fynd â'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ac yn sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o'r cyfleoedd sy'n deillio o Fesur y Gymraeg (Cymru).

Yn y cyfamser, mae'n bwysig ein bod yn parhau i ddatblygu cynigion y strategaeth ddrafft. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut y byddwn yn gwneud hynny.